**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Trawsnewid Sefydliadau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 25 Hydref 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P N Bentu | J A Hale |
| T J Hennegan | D H Hopkins | M Jones |
| S Joy | F D O'Brien | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rachael Davies | Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Gwasanaethau |
| Marlyn Dickson | Rheolwr Rhaglen Newid Strategol |
| Nick Huffer | Cyfreithiwr Cyflogaeth |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

## 17 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorwyr P N Bentu, M Jones ac F D O'Brien gysylltiadau personol â Chofnod Rhif 19 - Gwobrwyo a Chydnabod.

## 18 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022 fel cofnod cywir.

## 19 Gwobr a Chydnabyddiaeth.

Cyflwynodd Rachael Davies, Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Gwasanaethau adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi gwybod i'r cyngor am Strategaeth Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth bresennol y cyngor.

Amlinellwyd bod ymagwedd y cyngor tuag at y Strategaeth Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth yn cael ei manylu yn Natganiad Polisi Tâl blynyddol 2022/23. Mae'n ofyniad statudol yn unol â Deddf Lleoliaeth (2011) lle mae'n rhaid i

awdurdodau Cymru a Lloegr gyhoeddi Datganiad Polisi Tâl yn flynyddol, sy’n nodi eu hymagwedd at bob agwedd ar dâl a chydnabyddiaeth. Mabwysiadodd Cyngor Abertawe'r datganiad cyflog blynyddol ddiwethaf ym mis Mawrth 2022.

Esboniwyd bod y Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin ag agwedd y cyngor at daliadau ariannol, ychwanegiad y farchnad, taliadau honoraria, y cysylltiad â chyflog a pherfformiad, taliadau ymadael, diswyddo gwirfoddol a chynlluniau pensiwn. Nid yw'n cynnwys unrhyw fuddion heb fod yn ariannol.

Nodwyd mai tâl oedd y cyfrannwr unigol mwyaf sy'n dylanwadu ar becynnau taliad cydnabyddiaeth cyffredinol. Mae'r cyngor yn mabwysiadu dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol pan gytunir arnynt rhwng cyflogwyr cenedlaethol ac undebau llafur. Darparwyd manylion colofnau/graddau cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol (CGC) yn Atodiad A.  Cyfeiriwyd hefyd at y broses Arfarnu Swyddi ac honoraria.

Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), amodau a thelerau cyflogaeth, buddion heb fod yn ariannol, cydnabod perfformiad, adborth staff, Strategaeth Gweithlu 2022-2027 ac ystyriaethau yn y dyfodol.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Effaith grymoedd y farchnad ar y Polisi Recriwtio a Chadw a sut yr oedd yn anodd llenwi rhai rolau heb rywfaint o dâl ychwanegol dros gyfnod o amser cyfyngedig.
- Y gwahaniaethau rhwng cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol a chyflog uwch-swyddogion/swyddogion o wahanol gynlluniau.
- Rôl Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr
- Manylion y gweithlu o ran rhyw, anabledd a hil a'r wybodaeth ychwanegol a fyddai ar gael yn hyn o beth gyda chyflwyniad i Oracle Fusion.
- Nifer y Seicolegwyr Addysg a gyflogir gan yr Awdurdod, a fyddai'n cael ei egluro gan Swyddogion.
- Y Polisi Gweithio Hyblyg a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cabinet ac adolygu’r system oriau hyblyg bresennol.
- Y gwahanol ddulliau o weithio a ddefnyddir gan wahanol gyfarwyddiaethau.
- Faint o weithwyr rhan-amser oedd yn gyffredinol yn fenywod ac ar gyflog isel.
- Sut roedd yr Awdurdod wedi cytuno i gefnogi gweithwyr ar ben isaf y cynllun tâl ac effaith hyn ar yr economi leol.
- Sicrhau bod nifer yr ymatebwyr yn cael ei adrodd yn ogystal â chanrannau o ran adborth staff ac ymgysylltu â'r staff hynny nad ydynt ar e-bost.
- Y tri pherson a oedd yn trafod ac yn gwrando y cyfeiriwyd atynt yn ddiweddar mewn cyflwyniad ar y cyd gan y cyngor ag Archwilio Cymru.
- Ffurfio grŵp cydraddoldeb staff a defnyddio'r grŵp i gynorthwyo gydag ymchwil.
- Cydnabod perfformiad drwy amrywiol ddulliau fel sesiynau un-i-un a gwobrau.
- Staff yn cael yr hyder a’r gefnogaeth i wneud sylwadau, gwrando ar sut mae staff yn teimlo ac ymgysylltu ystyrlon.

- Pwysigrwydd diolch i staff am eu hymdrechion ac edrych ar ffyrdd eraill i'r Awdurdod ddangos ei werthfawrogiad.
- Yr ymarfer 'diwrnod yn ein hesgidiau ni' lle mae rheolwyr yn gweithio o fewn timau i werthfawrogi'r gwaith sy'n cael ei wneud.
- Y posibilrwydd o ailgyflwyno gwobrau gwasanaeth hir.
- Canolbwyntio ar wobrau heb fod yn ariannol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Gwasanaethau am ei hadroddiad.

**20 Cynllun Gwaith**

Cyflwynodd y Cadeirydd 'er gwybodaeth' Gynllun Gwaith y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Trawsnewid Sefydliadol ar gyfer 2022-2023.

Nodwyd y byddai gweithio ystwyth yn cael ei drafod ar 22 Tachwedd 2022.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod gwrthdaro ar 22 Tachwedd 2022 ac y byddai'n rhaid symud y cyfarfod i'r bore. Ychwanegodd y byddai'r amser yn cael ei gadarnhau o fewn y dyddiau nesaf.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.06 pm

**Cadeirydd**